# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd rhwng 20 a 27 Ebrill 2006

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

Cwestiynau i'r Trefnydd

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau

**Peter Black:** Beth oedd cyfanswm y cyllid grant a roddwyd i ddatblygu'r felin bapur ym mharc ynni Baglan? (WAQ46448)

**Peter Black:** Beth yw cost a budd buddsoddiad Llywodraeth y Cynulliad yn y felin bapur ym mharc ynni Baglan a sut y cafodd hynny ei gyfrifo? (WAQ46449)

**Peter Black:** Faint sydd wedi'i dalu o'r pwrs cyhoeddus hyd yn hyn i godi lefelau'r tir ym mharc ynni Baglan er mwyn gallu adeiladu'r felin bapur newydd? (WAQ46450)

***Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 31 Mawrth.***

**Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (Andrew Davies):** Cynigiwyd pecyn o gyllid yn cynnwys grant seilwaith gan y WDA o £5 miliwn a grant cymorth rhanbarthol dewisol o £8 miliwn i'r prosiect hwn.

Yr oedd yr arfarniad o gais y cwmni am gymorth rhanbarthol dewisol (RSA) yn cynnwys dadansoddiad llif arian a ddiystyrir ac yr oedd hefyd yn bwrw cyfrif o'r budd net i economi'r DU, ond mae'r data yn cael ei ystyried yn sensitif yn fasnachol. Dywedai'r cais RSA y câi 304 o swyddi eu creu, felly cyfrifwyd y gost RSA fesul swydd fel £26,316. Cafodd grant seilwaith y WDA ei arfarnu yn unol â'r gweithdrefnau safonol, gan gymryd i ystyriaeth gyfanswm buddsoddiad y sector preifat o oddeutu £63.5 miliwn a'r canlyniadau datblygu economaidd. Wrth ystyried y naill grant a'r llall, rhoddwyd sylw llawn hefyd i agweddau ansoddol y prosiect, yn unol â'r arferion safonol.

Mae rhyw £1.7 miliwn o'r grant seilwaith wedi dod yn daladwy erbyn hyn wrth i'r WDA gaffael gwaith i'r diben hwn, ac mae'r gwaith o godi lefelau'r tir wedi cael ei gwblhau erbyn hyn. Nid oes grant RSA wedi cael ei dalu i'r cwmni eto, er bod hawliad cyntaf wedi dod i law yn ddiweddar ac mae'n cael ei ystyried yn y ffordd arferol.

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog restru enwau aelodau sector preifat pob un o'r pum grwp ffrwd waith a sefydlir gan WEFO: a) ffrwd waith cydweithio tiriogaethol; b) ffrwd waith llywodraethu a chydymffurfiaeth; c) ffrwd waith rhaglenni gweithredol; d) ffrwd waith gwerthuso a monitro ac e) ffrwd waith rheoli rhaglenni? (WAQ46687)

**Andrew Davies:** Dangosir yr aelodau o'r sector preifat ar gyfer pob un o'r ffrydiau gwaith isod:

| | |
|---|---|
| Rhaglenni Gweithredol: | Mike Theodoulou (Foothold) |
| | Owen Evans (British Telecom) |
| | Martin Mansfield (AMICUS) |
| Cydweithio Tiriogaethol: | Katherine Himsworth (Amion) |
| Rheoli Rhaglenni: | Geoff Thomas (MARQUAND) |
| Gwerthuso a Monitro: | Peter Umbleja (Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig) |
| Llywodraethu a Chydymffurfiaeth: | David Lermon (Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig) |

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad o'r gwariant ar dwristiaeth yng Nghymru er 2003, yn ôl awdurdod lleol? (WAQ46718)

**Andrew Davies:** Mae’r tabl isod yn rhoi manylion y grantiau a gymeradwywyd gan Fwrdd Croeso Cymru gynt yn ôl ardal awdurdod lleol. Fel RSA a grant buddsoddi’r Cynulliad, grantiau sy’n ymateb i’r galw yw’r grantiau hyn yn eu hanfod.

| Awdurdod lleol | 2003-04 (£) | 2004-05 (£) | 2005-06 (£) | Cyfanswm (£) |
|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 761,663 | 52,259 | 300,000 | 1,113,922 |
| Blaenau Gwent | 14,285 | 0 | 150,000 | 164,285 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 229,460 | 40,000 | 57,500 | 326,960 |
| Caerffili | 783,056 | 81,865 | 65,000 | 929,921 |
| Caerdydd | 1,260,781 | 303,575 | 1,008,875 | 2,573,231 |
| Sir Gaerfyrddin | 1,365,393 | 408,681 | 163,750 | 1,937,824 |
| Ceredigion | 534,356 | 646,071 | 489,931 | 1,670,358 |
| Conwy | 1,533,367 | 1,375,877 | 370,739 | 3,279,983 |
| Sir Ddinbych | 657,876 | 20,912 | 714,785 | 1,393,573 |
| Sir y Fflint | 9,150 | 1,177 | 0 | 10,327 |
| Gwynedd | 2085087 | 462261 | 1384585 | 3931933 |
| Merthyr Tudful | 223,091 | 0 | 14,063 | 237,154 |
| Sir Fynwy | 333,382 | 236,856 | 373,873 | 944,111 |
| Castell-nedd Port Talbot | 397,800 | 20,895 | 0 | 418,695 |
| Casnewydd | 96,234 | 0 | 559,000 | 655,234 |
| Sir Benfro | 2,944,235 | 746,530 | 1,830,251 | 5,521,016 |
| Powys | 1,704,853 | 1,324,739 | 2,594,670 | 5,624,262 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rhondda Cynon Taf | 68,000 | 100,200 | 51,250 | 219,450 |
| Abertawe | 158,355 | 77,434 | 388,503 | 624,292 |
| Tor-faen | 192,990 | 225,885 | 50,000 | 468,875 |
| Bro Morgannwg | 18,446 | 500,000 | 183,000 | 701,446 |
| Wrecsam | 209,683 | 62,120 | 612,850 | 884,653 |
| **Cyfanswm** | **15,581,543** | **6,687,337** | **11,362,625** | **33,631,505** |

**Alun Cairns:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i newid y trefniadau ariannu a'r berthynas gyffredinol gyda Chymdeithas Canolfan Gyswllt Cymru, yn dilyn uno’r cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad? (WAQ46721)

**Andrew Davies:** Nid oes gennyf gynlluniau i newid y rhain.

**Alun Cairns:** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o gynigion Mesur Llywodraeth Cymru ar gyfer ymgynghori â’r sector fusnes ac a wnaiff ddatganiad am hyn? (WAQ46722)

**Andrew Davies:** Yr wyf yn fodlon iawn â’r cynigion ar gyfer ymgynghori â’r sector fusnes, fel y maent wedi’u nodi ym Mesur Llywodraeth Cymru. Fe’u lluniwyd ar ôl trafodaeth fanwl gyda chynrychiolwyr busnes a chynrychiolwyr undebau llafur, ac maent yn mynd i’r afael â’u pryderon hwy y dylai buddiannau busnes gael eu cymryd i ystyriaeth wrth lunio polisi ym mhob maes.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y plant sy’n bwyta cinio ysgol? (WAQ46679)

**Leanne Wood:** Pa amcangyfrifon y mae’r Gweinidog wedi eu derbyn ynglyn â chanran y plant sy’n bwyta a) cinio ysgol a b) brechdanau? (WAQ46680)

**Y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Davidson):** Mae adran 512 o Ddeddf Addysg 1996, fel y'i diwygiwyd gan adran 201 o Ddeddf Addysg 2002, yn rhoi'r cyfrifoldeb am ddarparu prydau ysgol ar AALlau (neu gyrff llywodraethu ysgolion lle mae'r swyddogaeth wedi cael ei dirprwyo). I'r disgyblion hynny sydd â hawl i brydau ysgol am ddim, mae'n ofynnol i'r AALl ddarparu cinio ysgol ar eu cyfer.

O ran ysgolion cynradd, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn casglu'r nifer o ddisgyblion sy'n cymryd pryd canol dydd, y rhai sydd â hawl i brydau am ddim a'r niferoedd sy'n cymryd pryd am ddim ar ddiwrnod y cyfrifiad. O ran ysgolion uwchradd, mae'r niferoedd sydd â hawl i brydau ysgol am ddim a'r niferoedd sy'n cymryd pryd am ddim ar ddiwrnod y cyfrifiad yn cael eu casglu, ond nid y nifer sy'n talu am bryd. Nid oes gwybodaeth yn cael ei chasglu am ddod â brechdanau i'r ysgol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn edrych eto ar y wybodaeth sy'n cael ei chasglu ar hyn o bryd yn y cyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion (PLASC).

Mae prydau ysgol a darparu prydau ysgol am ddim yn arbennig yn agwedd bwysig o strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru yn erbyn tlodi. Mae canran sylweddol o blant nad ydynt yn manteisio ar y prydau ysgol am ddim y mae ganddynt hawl iddynt. Ym mis Ionawr 2005 adroddodd cyfrifiad ysgolion blynyddol, cynradd ac uwchradd, Llywodraeth Cynulliad Cymru ar lefel disgyblion fod 63,000 o'r 81,500 o ddisgyblion (77 y cant) a oedd â hawl i brydau ysgol am ddim wedi cymryd pryd ar ddiwrnod y cyfrifiad (81 y cant o'r rhai a oedd â hawl i brydau am ddim mewn ysgolion cynradd a 72 y cant mewn ysgolion uwchradd).

Mewn ardaloedd difreintiedig lle mae'r mwyafrif o'r prydau a weinir am ddim, y rhain sy'n pennu ansawdd y gwasanaeth cyfan. Mae nifer sylweddol o blant nad ydynt yn manteisio ar eu hawl i brydau ysgol am ddim o hyd, ac mae angen i bob ysgol ac awdurdod lleol ddatblygu strategaethau i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar eu hawl i brydau am ddim gan anelu at gael pob plentyn i fanteisio ar ei hawl.

Mae mater prydau ysgol drwyddo draw wedi bod yn destun adolygiad manwl gan y gweithgor bwyd mewn ysgolion a bydd ei adroddiad, 'Appetite for Life', yn cael ei lansio ar 29 Mehefin 2006 er mwyn ymgynghori â'r cyhoedd.

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi unrhyw ffigurau y mae hi wedi eu derbyn ynglyn â chanran y plant sy'n cerdded i'r ysgol? (WAQ46681)

**Jane Davidson:** Nid yw Llywodraeth y Cynulliad yn dal nac yn casglu ffigurau am y nifer o blant sy'n cerdded i'r ysgol. Fodd bynnag, mae data a gasglwyd gan yr Adran Drafnidiaeth drwy'r arolwg teithio cenedlaethol yn dangos, yn 2003-04, fod 37 y cant o siwrneiau i'r ysgol yng Nghymru gan blant pump i 16 oed ar droed, 36 y cant yn y car a 25 y cant ar fws neu goets. Cyhoeddir y data hwn fel rhan o ystadegau trafnidiaeth Cymru 2005, sydd ar gael ar:

http://new.wales.gov.uk/legacy_en/keypubstatisticsforwales/content/publication/transport/2005/wts2005/wts2005-e.htm

**Kirsty Williams:** A yw'r Gweinidog yn bwriadu ei gwneud hi'n orfodol i ysgolion gynnig 5 diwrnod o addysg fenter i bob disgybl 14 – 16 oed, fel y gwnaed yn Lloegr? (WAQ46685)

**Jane Davidson:** Y sefyllfa yn Lloegr yw bod dysgu sy'n gysylltiedig â gwaith (sy'n cwmpasu menter) wedi dod yn statudol ym mis Medi 2004. Yr oedd gofyniad i ddarparu'r maes dysgu hwn ond nid oedd gofyniad penodol i gynnig amser cwricwlwm ychwanegol. Ym mis Medi 2005, cyhoeddodd yr Adran Addysg a Sgiliau grant i annog gweithgareddau sy'n gogwyddo tuag at fenter. Nid yw hyn yn orfodol i ysgolion, er bod rhywfaint o brofiad o ddysgu sy'n gysylltiedig â gwaith, yn cynnwys menter, yn orfodol.

Yng Nghymru, mae addysg sy'n gysylltiedig â gwaith wedi bod yn rhan o'r cwricwlwm ysgol sylfaenol yng nghyfnod allweddol 4 er mis Medi 2004. Mae'n ofynnol yn ôl Gorchymyn y Cwricwlwm Sylfaenol ar gyfer Cymru (Diwygio) 2003, Rhif 932 (W.122) fod y cwricwlwm i ddisgyblion 14 i 16 oed yn cynnwys darpariaeth ar gyfer addysg gysylltiedig â gwaith. Dylai'r ddarpariaeth hon gael ei seilio ar y fframwaith a gyhoeddwyd gan Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru yn 2000. Disgwylir i bob disgybl gael y cyfle i ymgymryd ag o leiaf bum diwrnod o brofiad gwaith o ansawdd dda ac o leiaf un gweithgaredd arall. Mae'r rhain yn cynnwys menter, mentora, cyrsiau galwedigaethol a chymorth gan gyflogwyr yn ystod gwaith cwrs. Ymhelaethir ar y rhain yn y canllawiau atodol a gyhoeddwyd gan ACCAC yn 2000. Mae'r fframwaith addysg gysylltiedig â gwaith yn cael ei adolygu ar hyn o bryd fel rhan o'r adolygiad ehangach o gwricwlwm ysgolion.

**Kirsty Williams:** A yw'r Gweinidog yn bwriadu dyrannu arian i bob ysgol yng Nghymru i hwyluso dysgu sgiliau menter, fel y gwnaed yn Lloegr? (WAQ46686)

**Jane Davidson:** Mae cefnogaeth i addysg fenter mewn ysgolion yng Nghymru yn cael ei darparu mewn amryw o ffyrdd. Cafodd deunyddiau cwricwlwm Dynamo, a ddatblygwyd gan Awdurdod Datblygu Cymru ac ACCAC, eu lansio ar gyfer cyfnodau allweddol 1 a 2 ym mis Gorffennaf 2004 a chyfnod allweddol 3 ym mis Tachwedd 2005. Mae'r rhain yn help i ddarparu model cyffredin o ddysgu a chyflwyno entrepreneuriaeth drwy'r cwricwlwm. Gellir adeiladu ar y deunyddiau hyn drwy i bobl ifanc gymryd rhan mewn ystod eang o gynlluniau, yn arbennig fel rhan o addysg gysylltiedig â gwaith lle mae gweithgaredd menter yn un o'r opsiynau a gynigir i ddisgyblion 14 i 19 oed. Mae Gyrfa Cymru yn helpu ysgolion i hwyluso cyfleoedd o'r fath. Maent yn gallu cynnwys cymryd rhan mewn rhaglenni menter yr ifanc neu raglenni cyflawnwyr rhyngwladol, prosiectau deall diwydiant, diwrnodau menter, mynd i sesiynau delfrydau ymddwyn Dynamo a defnyddio gemau busnes a gynhyrchwyd yn fasnachol.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

**Ieuan Wyn Jones:** A wnaiff y Gweinidog nodi sawl gwaith yr ystyriwyd yr ‘effaith gyfunol’ mewn datblygiadau sy’n effeithio ar ardaloedd gwarchodaeth arbennig (AGA) / ardaloedd cadwraeth arbennig (ACA) a ddynodwyd dan y gyfarwyddeb cynefinoedd? (WAQ46676)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Mae gan bob awdurdod cymwys, fel rhan o’i asesiad o oblygiadau datblygiad ar safle Ewropeaidd, ddyletswydd o dan reoliad 48 o reoliadau cynefinoedd 1994 i ystyried effaith y datblygiad o’i gyfuno â chynlluniau a phrosiectau eraill. Gan mai dyletswydd ar awdurdodau cymwys unigol yw hon nid wyf mewn sefyllfa i ddarparu gwybodaeth generig am sawl gwaith y mae’r ‘effaith gyfunol’ wedi cael ei hystyried gan bob awdurdod.

**Ieuan Wyn Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hynt a helynt yr adolygiad o gydsyniadau cyfredol sy’n effeithio ar ardaloedd gwarchodaeth arbennig (AGA) / ardaloedd cadwraeth arbennig (ACA), fel sy’n ofynnol gan y gyfarwyddeb cynefinoedd? (WAQ46677)

**Carwyn Jones:** Mae’r ‘Adolygiad o Gydsyniadau’ yn ofyniad cyfreithiol ar bob awdurdod cymwys (cyrff cyhoeddus) i adolygu ei gynlluniau a’i brosiectau yn y gorffennol (trwyddedau, caniatadau, awdurdodiadau ac ati) a allai effeithio ar AGA ac ACA. Rheoliad 50 o’r rheoliadau cynefinoedd sy’n pennu’r gofyniad hwn, ac mae’n un o’r prif ffyrdd a ddefnyddir gan y DU i weithredu erthygl 6(3) o’r gyfarwyddeb cynefinoedd mewn perthynas â’r 90 AGA a’r 19 ACA yng Nghymru.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru wedi ymuno mewn prosiect ar y cyd i adolygu cydsyniadau asiantaeth yr amgylchedd (e.e. tynnu dwr a gollyngiadau). Pennwyd dyddiad cwblhau fesul cam i’r gwaith hwn. Mae’r prosiect i gyd i fod i gael ei gwblhau erbyn 2010, gan ddelio â’r safleoedd lle gall yr asiantaeth wneud y gwahaniaeth mwyaf yn gyntaf (erbyn 2006), eraill erbyn 2008 a’r gweddill erbyn 2010.

Mae’r asiantaeth wedi adolygu dros 26,000 o drwyddedau, a barnwyd bod i tua 5,000 ohonynt ‘effaith arwyddocaol debygol’. Mae’r cyngor cefn gwlad wedi adolygu tua 10,000 o gydsyniadau, ond barnwyd mai nifer lawer llai sydd ag effaith arwyddocaol debygol. Mae’r cyngor cefn gwlad yn disgwyl gorffen ei adolygiad yn 2007 ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gofyn iddo helpu’r awdurdodau cynllunio lleol i gynllunio sut y byddant hwy’n delio â’r niferoedd mawr iawn o gydsyniadau a allai effeithio ar safleoedd Ewropeaidd.

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau ei fod yn gallu nodi lleoliad pob haid o ddofednod gyda

llai na 50 o adar yng Nghymru? (WAQ46688)

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau ei fod yn gallu nodi lleoliad yr holl ddofednod yng Nghymru? (WAQ46706)

***Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 20 Ebrill.***

**Carwyn Jones:** Na wnaf. Mae cofrestr ddofednod Prydain Fawr yn dal gwybodaeth am heidiau o fwy na 50 o adar. Mae’r gofrestr hefyd yn dal rhywfaint o wybodaeth a gyflwynwyd yn wirfoddol gan rai sy’n cadw llai na 50 o adar. Ni allaf gadarnhau y gallaf nodi lleoliad pob haid o ddofednod sydd â llai na 50 o adar yng Nghymru.

**Elin Jones:** Pa gymhelliannau neu fesurau gorfodi sydd ar waith i sicrhau cofrestriad pob haid sydd â (i) dros 50 o adar, (ii) llai na 50 o adar? (WAQ46689)

***Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 20 Ebrill.***

**Carwyn Jones:** Mae’n ofyniad cyfreithiol i gofrestru heidiau masnachol o 50 neu fwy o adar ac mae cosbau am beidio â gwneud hynny. Yr ydym wedi annog perchnogion heidiau llai i gofrestru’n wirfoddol.

**Elin Jones:** Pa asesiad a wnaed o allu perchnogion dofednod i ddarparu llety addas ar gyfer eu hadar pe bai gofyniad yn cael ei osod arnynt i gadw eu hadar dan do? (WAQ46690)

***Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 20 Ebrill.***

**Carwyn Jones:** Dim. Mae perchnogion yn cael eu hannog i gynllunio ar gyfer y sefyllfa honno, lle bynnag y mae hynny’n ymarferol. Gall y rheini sy’n wynebu anawsterau ymarferol o ran darparu llety gymryd mesurau eraill i leihau’r cyswllt rhwng eu heidiau ac adar gwyllt i’r eithaf.

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion ynghylch faint o frechiadau sydd ar gael iddo er mwyn brechu adar yng Nghymru rhag ffliw adar, ac a wnaiff ef roi manylion ynghylch lleoliad cyflenwadau? (WAQ46691)

***Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 20 Ebrill.***

**Carwyn Jones:** Mae 2.3 miliwn dos o frechlyn adar wedi cael eu danfon i’r DU i’w defnyddio fel y bydd rhaid. Nid oes cyflenwad penodol ar gyfer Cymru. Os rhoddir brechu ar waith, bydd y defnydd ohono yn dibynnu ar ymhle y cadarnhawyd y clefyd.

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog fanylu ynghylch y lleoliad ar gyfer gwaredu unrhyw adar a gaiff eu difa pe bai achos o ffliw adar yn digwydd? (WAQ46692)

***Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 20 Ebrill.***

**Carwyn Jones:** Mae gwaredu yn cael ei drefnu’n ganolog i Brydain Fawr gan y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol. Mae gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig gytundebau gyda darparwyr llosgi a rendro ond nid oes unrhyw rai wedi cael eu rhestru yng Nghymru. Yr hierarchaeth waredu yw llosgi, rendro ac yna os nad oes capasiti ar ôl bydd gwaredu ar safleoedd tirlenwi yn cael ei ystyried.

**Elin Jones:** Yn wyneb y posibilrwydd y byddai achos o ffliw adar yn digwydd, a wnaiff y Gweinidog roi manylion ynghylch pa fesurau sy’n bodoli yn y cynllun wrth gefn i atal symud dofednod ac adar domestig, a mewnfudo dofednod ac adar? (WAQ46693)

***Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 20 Ebrill.***

**Carwyn Jones:** Fe’ch cyfeiriaf at gynllun wrth gefn clefydau ecsotig Cymru, a gyhoeddwyd ar 8 Mawrth 2006, paragraff 4.15, tudalen 20, adran 3. Mae mewnforio dofednod ac adar yn cael ei lywodraethu gan ddeddfwriaeth briodol.

**Elin Jones:** Pa asesiad risg a gynhaliwyd ar gyfer y posibilrwydd o roi brechiadau brys neu frechiadau ataliol i ddofednod ac adar rhag ffliw adar yng Nghymru? (WAQ46694)

***Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 20 Ebrill.***

**Carwyn Jones:** Dim. Bydd brechu yn cael ei ystyried, ynghyd â dulliau eraill o ddelio â’r clefyd.

**Elin Jones:** Pryd oedd y tro diwethaf i’r Gweinidog drafod ffliw adar gyda Gweinidogion y DU, a phryd

y byddant hwy'n cyfarfod nesaf i drafod y mater? (WAQ46695)

**Carwyn Jones:** Siaradais â'r Gweinidog yn yr Alban ar y diwrnod y cafodd y clefyd ei gadarnhau. Mae'r cyfarfod nesaf i Weinidogion y DU i fod i gael ei gynnal ar 20 Ebrill, ond, yn dibynnu ar yr amgylchiadau, efallai y bydd angen cyswllt yn gynharach.

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion ynghylch cost iawndal am TB mewn gwartheg bob blwyddyn er 1999? (WAQ46710)

**Carwyn Jones:** Iawndal TB—net o'r derbyniadau am garcasau. Mae'r tabl isod yn dangos y cyllidebau gwreiddiol a'r gwariant gwirioneddol ar daliadau iawndal TB yng Nghymru.

| **Blwyddyn** | **Cyllideb Ddrafft** | **Gwariant Gwirioneddol** |
|---|---|---|
| **1999-2000** | £416,000 | £1,038,000 |
| **2000-01** | £416,000 | £1,463,000 |
| **2001-02** | £1,372,000 | £2,125,000 |
| **2002-03** | £1,519,000 | £7,779,000 |
| **2003-04** | £1,719,000 | £9,148,000 |
| **2004-05** | £950,000 | £8,849,000 |
| **2005-06** | £5,950,000 | £11,778,000* |

*Ffigur am y flwyddyn hyd yma—nid yw ar ei wedd derfynol oherwydd proses gyfrifo diwedd y flwyddyn.

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion ynghylch cost archwiliadau milfeddygol ar gyfer TB mewn gwartheg bob blwyddyn er 1999? (WAQ46711)

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion ynghylch cost TB mewn gwartheg bob blwyddyn er 1999? (WAQ46712)

**Carwyn Jones:** Mae cyfanswm amcangyfrifedig gwariant y Llywodraeth (£ miliwn) ym Mhrydain Fawr ar fynd i’r afael â TB mewn gwartheg yn y blynyddoedd rhwng 1999-2000 a 2004-05 wedi ei nodi yn y tabl isod. O fewn y cyfansymiau hyn, mae’r gwariant ar brofion gwartheg sy’n gysylltiedig â TB buchol yn cael ei nodi ar wahân.

| | **1999-2000** | **2000-01** | **2001-02** | **2002-03** | **2003-04** | **2004-05** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Profion** | 17.6 | 13.3 | 5.4 | 24.7 | 33.2 | 36.4 |
| **Cyfanswm** | 38.2 | 36.2 | 30.5 | 74.5 | 88.2 | 90.5 |

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion ynghylch nifer y moch daear marw a gasglwyd erbyn diwedd Mawrth 2006? (WAQ46713)

**Carwyn Jones:** Erbyn diwedd mis Mawrth 2006 yr oedd yr arolwg o foch daear marw yng Nghymru wedi darparu 362 o garcasau moch daear i’r Asiantaeth Labordai Milfeddygol i gael eu profi.

**Elin Jones:** A yw’r Gweinidog wedi derbyn unrhyw awgrym ynglyn â chyllid Ewropeaidd a fydd ar gael i Gymru ar gyfer gweithredu’r Cynllun Datblygu Gwledig o 2006 ymlaen? (WAQ46714)

***Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 20 Ebrill.***

**Carwyn Jones:** Mae’r comisiwn wedi nodi ei bod yn debygol y bydd penderfyniadau’n cael eu gwneud cyn diwedd mis Mehefin am ddyraniadau’r aelod wladwriaethau unigol o gronfa amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer datblygu gwledig. Gwneir y penderfyniadau yn unol â barn Senedd Ewrop am gytundeb y cyngor Ewropeaidd ar bersbectif ariannol yr UE i’r dyfodol, rhwng 2007 a 2013. Yn ychwanegol at hynny, nid yw’r comisiwn wedi cyflwyno meini prawf eto fel sail i benderfynu ar ddyraniadau cronfa amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer datblygu gwledig.

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion ynghylch y cyllid a sicrhawyd o a) ffynonellau cyllido Ewropeaidd, b) ffynonellau cyllido’r Cynulliad ac c) ffynonellau cyllido eraill ar gyfer Tir Mynydd bob blwyddyn ers ei sefydlu, ac a wnaiff ef roi manylion ynglyn â ffrydiau cyllido a glustnodwyd ar gyfer pob opsiwn a ystyrir yn yr adolygiad cyfredol o Tir Mynydd? (WAQ46715)

**Carwyn Jones:** Mae cynllun Tir Mynydd yn cael ei gyllido gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gyda chyfraniad o du Cronfa Cyfarwyddo a Gwarantu Amaethyddiaeth Ewrop yr UE. Dyma gyfanswm y taliadau o dan y cynllun fesul blwyddyn, ynghyd â'r cyfraniad o'r gronfa:

| **Blwyddyn** | **2001** | **2002** | **2003** | **2004** | **2005** | **2006** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm a dalwyd (£m) | 42.26 | 38.35 | 34.00 | 35.55 | 35.76 | 35.42 rhagamcan |
| Cyfraniad y Gronfa (£m) | 6.03 | 5.78 | 4.90 | 6.03 | 6.08 | 6.15 |

Mae'r trefniadau ar gyfer Tir Mynydd i'r dyfodol o dan y cynllun datblygu gwledig olynol i Gymru, 2007 i 2013, yn amodol ar benderfyniadau yn dilyn yr ymgynghoriad yn ddiweddar. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 10 Mawrth ac mae'r ymatebion yn cael eu dadansoddi ar hyn o bryd.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

**Leanne Wood:** Pa gamau diogelwch a gymerwyd i warchod Siambr newydd y Cynulliad rhag ymosodiadau gan derfysgwyr a beth yw cost y camau hynny? (WAQ44484)

***Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 21 Hydref 2005.***

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Yng ngoleuni ymosodiadau terfysgol 11 Medi 2001 mae cyfres o fesurau diogelwch wedi cael eu hymgorffori yng nghynllun yr adeilad yn unol â chyngor cynghorydd diogelwch y Llywodraeth a'n hymgynghorwyr diogelwch ni.

Nid yw'r erchyllterau terfysgol yn Llundain yr haf hwn ond yn atgyfnerthu'r angen i fod ar ein gwyliadwriaeth, yn arbennig mewn adeiladau cyhoeddus mawr ac yng nghyffiniau adeiladau o'r fath.

Nid wyf yn bwriadu datgelu graddfa na natur y mesurau sydd wedi cael eu rhoi ar waith. Fe'u bwriadwyd nid yn unig i amddiffyn Aelodau Cynulliad ond hefyd y cyhoedd sy'n ymweld â'r adeilad. Amcangyfrifir bod cost y gwelliannau diogelwch oddeutu £5 miliwn i gyd

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am reoli mynwentydd yng Nghymru? (WAQ44637)

***Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 9 Tachwedd 2005.***

**Sue Essex:** Nid oes un corff o ddeddfwriaeth yn llywodraethu mynwentydd. Caiff mynwentydd awdurdodau lleol eu rheoleiddio o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a Gorchymyn Mynwentydd Awdurdodau Lleol 1977 (OS 1977 Rhif 204). Llywodraethir mynwentydd yr Eglwys yng Nghymru gan gyfraith eglwysig, a gall eraill fod yn ddarostyngedig i amryw o ddeddfwriaethau eraill. Mae’r grwp cynghori ar gladdu a mynwentydd a sefydlwyd gan y Swyddfa Gartref wrthi ar hyn o bryd yn ymchwilio i bob agwedd o’r diwydiant claddu yng Nghymru a Lloegr, yn cynnwys yr achos o blaid sefydlu’r un ddeddfwriaeth i bawb. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi sefydlu is-grwp i sicrhau bod buddiannau neilltuol Cymru yn cael eu cymryd i ystyriaeth.

Canfu ymgynghoriad Llywodraeth y DU am gyfraith a pholisi claddu yn yr unfed ganrif ar hugain, a gynhaliwyd yn 2004, fod cefnogaeth gyffredinol i ymdrin mewn dull mwy unffurf â deddfwriaeth yn y maes hwn, yn cynnwys moderneiddio rhai rheoliadau. Erbyn hyn, mae’r cyfrifoldeb am gladdu a mynwentydd yn Llywodraeth y DU wedi cael ei drosglwyddo i’r Adran Materion Cyfansoddiadol. Yn dilyn dadansoddiad cychwynnol o’r ymatebion i’r ymgynghoriad, bydd yr adran yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau diwrnod cyn bo hir i ystyried rhai o agweddau manwl diwygio cyfraith gladdu sydd wedi dod i’r amlwg o ganlyniad i’r ymgynghori. Bydd rhai o swyddogion Llywodraeth y Cynulliad ac aelodau o is-grwp Cymru yn cymryd rhan yn y trafodaethau hynny.

**Carl Sargeant:** Pa gamau y mae’r Gweinidog wedi eu cymryd, er 2003, i gefnogi Sir y Fflint i wella’r gwasanaethau lleol a ddarpara? (WAQ44639)

***Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 9 Tachwedd 2005.***

**Sue Essex:** Ym mis Ionawr 2005, lluniais gytundeb polisi gyda Chyngor Sir y Fflint sy’n nodi’r gwelliannau y mae’r awdurdod wedi cytuno gyda Llywodraeth y Cynulliad y bydd yn eu cyflawni erbyn 2007. Wedi hynny cafodd yr awdurdod randaliad cyntaf y grant cymell perfformiad, cyfanswm o £1,428,476. Ar ôl dadansoddi perfformiad yr awdurdod yn erbyn y targedau y cytunwyd arnynt yn y cytundeb polisi ar gyfer 2004-05, mae Sir y Fflint wedi cyflawni’r gwelliannau canlynol:

- cynnydd yn y cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion uwchradd
- cynnydd yn nifer y bobl a oedd yn anweithgar yn economaidd sy’n ymuno â’r farchnad lafur
- gostyngiad yn y nifer o ddisgyblion, yn cynnwys y rheini yng ngofal yr awdurdod lleol, sy’n gadael yr ysgol heb gymwysterau cydnabyddedig

cynnydd yn y nifer o bobl sy’n teimlo’n saff neu’n weddol saff yn cerdded yng nghanol eu trefi yng ngolau dydd

cynnydd yn y nifer o bobl sy’n teimlo’n saff neu’n weddol saff yn cerdded yng nghanol eu trefi ar ôl iddi dywyllu

gostyngiad yn y gollyngiadau carbon deuocsid o adeiladau cyngor annomestig

gostyngiad yn yr ynni a ddefnyddir ac yn y gollyngiadau carbon deuocsid o’r stoc tai

gostyngiad yn y gyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol

cynnydd yn y nifer o bobl hyn sy’n cael cymorth i fyw gartref.

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog roi diweddariad ar y cytundebau polisi rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Sir y Fflint? (WAQ44642)

***Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 9 Tachwedd 2005.***

**Sue Essex:** Ym mis Ionawr 2005, lluniais gytundeb polisi gyda Chyngor Sir y Fflint sy’n nodi’r gwelliannau y mae’r awdurdod wedi cytuno gyda Llywodraeth y Cynulliad y bydd yn eu cyflawni erbyn 2007. Wedi hynny cafodd Sir y Fflint randaliad cyntaf y grant cymell perfformiad, cyfanswm o £1,428,476. Ar ôl dadansoddi perfformiad yr awdurdod yn erbyn y targedau y cytunwyd arnynt yn y cytundeb polisi ar gyfer 2004-05, mae Sir y Fflint wedi cyflawni’r gwelliannau canlynol:

cynnydd yn y cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion uwchradd

cynnydd yn nifer y bobl a oedd yn anweithgar yn economaidd sy’n ymuno â’r farchnad lafur

gostyngiad yn y nifer o ddisgyblion, yn cynnwys y rheini yng ngofal yr awdurdod lleol, sy’n gadael yr ysgol heb gymwysterau cydnabyddedig

cynnydd yn y nifer o bobl sy’n teimlo’n saff neu’n weddol saff yn cerdded yng nghanol eu trefi yng ngolau dydd

cynnydd yn y nifer o bobl sy'n teimlo'n saff neu'n weddol saff yn cerdded yng nghanol eu trefi ar ôl iddi dywyllu

gostyngiad yn y gollyngiadau carbon deuocsid o adeiladau cyngor annomestig

gostyngiad yn yr ynni a ddefnyddir ac yn y gollyngiadau carbon deuocsid o'r stoc tai

gostyngiad yn y gyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol

cynnydd yn y nifer o bobl hyn sy'n cael cymorth i fyw gartref

gostyngiad yn y nifer o bobl hyn sydd mewn gofal preswyl

gostyngiad yn y ganran o blant sy'n derbyn gofal sy'n newid ysgol unwaith neu fwy tra byddant yn derbyn gofal

cynnydd yn y nifer o fusnes bach, sydd wedi ennill eu plwyf, sy'n cael cymorth gan y cyngor i ddatblygu a thyfu.

Byddwn yn talu grant cymell perfformiad Sir y Fflint ar gyfer 2005-06 cyn gynted ag yr ydym wedi datrys nifer fach o gwestiynau sy'n dal heb eu hateb am ei pherfformiad yn 2004-05.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Nick Bourne:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i imiwneiddio gweithwyr allweddol gyda chyffuriau gwrth-feiral cyn heintiad o ffliw adar? (WAQ44545)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau bod y stoc o gyffuriau gwrth-feiral a ddyrannwyd i Gymru yn ddigonol at ddibenion imiwneiddio yn ogystal â thrin? (WAQ44546)

**Nick Bourne:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gynyddu'r stoc o fygydau wyneb, menig ac offer llawfeddygaeth arall fel paratoad ar gyfer heintiad posibl o ffliw adar? (WAQ44547)

***Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 31 Hydref 2005.***

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons):** Yr ydym wedi gwneud

trefniadau i brynu cyffuriau gwrth-feiral (capsiwlau) i drin y rhai y disgwylir iddynt ddatblygu symptomau clinigol ar sail y gyfradd ymosod glinigol sy'n cael ei hargymell (25 y cant), a argymhellir gan Sefydliad Iechyd y Byd. Byddwn yn canolbwyntio ar drin:

y gweithwyr gofal iechyd hynny sy'n wynebu'r risg alwedigaethol fwyaf;

y grwpiau sydd â'r cyfraddau morbidrwydd uchaf; a

mwy o'r grwpiau blaenoriaeth wrth i'r cyflenwadau gynyddu.

Nid ydym yn prynu cyffuriau gwrth-feiral fel proffylacsis i nifer fawr o bobl gan fod y gost yn afresymol er ei bod yn gwbl bosibl y gallent gael eu defnyddio yn y ffordd hon ar gyfer cysylltiadau agos yr achosion cyntaf.

Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn bendant na fu unrhyw gynnydd yn lefel y bygythiad dros yr wythnosau a'r misoedd diwethaf, er gwaethaf y sylw sydd wedi cael ei roi i'r mater mewn gwledydd eraill. Nid oes brechlynnau yn erbyn firws H5N1 (ffliw adar) ar gael eto ond, gan ddisgwyl y bydd treialon clinigol i brofi effeithiolrwydd a diogelwch brechlynnau yn llwyddiannus, yr ydym wedi archebu cyflenwad bach fel mesur wrth gefn i amddiffyn gweithwyr gofal iechyd. Nid oes modd cynhyrchu brechlyn rhag pandemig nes bydd rhywogaeth benodol y firws yn hysbys.

Mae'r byrddau iechyd lleol yn gyfrifol am weithio gyda'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol, ymddiriedolaethau GIG a gwasanaethau gofal sylfaenol i sicrhau bod trefniadau wrth gefn yn cael eu sefydlu i ymateb yn lleol i argyfwng mawr yn deillio o glefyd heintus. Bydd eu paratoadau yn cynnwys darparu cyfarpar diogelu personol sydd i gael ei ddefnyddio yn unol â'r canllawiau sydd wedi cael eu darparu ar reoli heintiau.

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi unrhyw ffigurau neu amcangyfrifon y mae wedi eu derbyn ynglyn â nifer y plant sydd mewn perygl o ddatblygu clefyd y galon? (WAQ46682)

**Brian Gibbons:** Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei dal yn ganolog na'i chyhoeddi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**Leanne Wood:** Pa amcangyfrifon y mae'r Gweinidog wedi eu derbyn ynghylch canran (a) merched dan 18 oed sydd dros bwysau; (b) bechgyn dan 18 oed sydd dros bwysau; (c) merched gordew dan 18 oed; a (d) bechgyn gordew dan 18 oed? (WAQ46683)

**Brian Gibbons:** Dengys y tabl isod y canrannau o bobl ifanc sydd dros bwysau neu'n ordew, yn ôl rhyw

a grwp oedran, gan ddefnyddio'r data diweddaraf sydd ar gael (2002 a 2004).

Ffynonellau data:

Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oed Ysgol, 2002/2004 (1,2)

Arolwg Iechyd Cymru, 2003/04 (3)

| **Oed** | **Rhyw** | **y cant yn ordew (4.5)** | | **y cant dros bwysau (4.5)** | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **2002** | **2004** | **2002** | **2004** |
| Gwryw | 4 | 4 | 18 | 16 | |
| Benyw | 2 | 3 | 15 | 11 | |
| Gwryw | 6 | 4 | 17 | 14 | |
| Benyw | 3 | 4 | 14 | 14 | |
| Pobl ifanc 17 i 18 oed | Pob person | - | 5 | - | 19 |

**Nodiadau am y tabl**

1. Mae'r data am bobl ifanc 13 i 14 oed a 15 i 16 oed yn dod o'r astudiaeth i ymddygiad iechyd mewn plant oed ysgol (HBSC). Cyhoeddir data 2002 yng nghyfrol Currie, C., Roberts, C., Morgan, A., Smith, R., Settertobulte, W., Samdal, O. a Barnekow Rasmussen, V. (Gol.) (2004). *Young People's Health In Context. Health Behaviour in School-aged Children (HBSC) study: international report from the 2001-02 survey*. Copenhagen: Sefydliad Iechyd y Byd. Nid yw data 2004 wedi cael ei gyhoeddi.

2. Yn 2002 y mesurwyd gorbwysau/gordewdra yn astudiaeth HBSC gyntaf. Astudiaeth wedi ei seilio ar ysgolion yw hon, yn cwmpasu pobl ifanc 11 i 16 oed. Defnyddir gwybodaeth am daldra a phwysau, a gofnodir gan yr unigolion eu hunain, i gyfrifo mynegai màs y corff (BMI) pob person. Defnyddiwyd torbwyntiau oed a rhyw penodol i gyfrifo pa mor gyffredin oedd gordewdra a gorbwysau. Mae pobl ifanc y diffinnir eu bod 'dros bwysau' yn cyfateb i werthoedd BMI oedolion uwch na neu gyfwerth â 25 ac is na 30, ac mae'r rhai y diffinnir eu bod yn 'ordew' yn cyfateb i werthoedd BMI oedolion o 30 neu fwy. Dylid bod yn ofalus wrth ymdrin â'r ffigurau, gan nad yw data BMI yn rhoi darlun cwbl gywir o ordewdra mewn pobl ifanc. Mae'r dystiolaeth o'r astudiaethau dilysu yn awgrymu rhywfaint o or-ddweud taldra a lleihau pwysau, sy'n arwain at amcangyfrif BMI sydd ychydig yn llai na'r gwir. Ni roddir cyfrannau am y grwp oedran 11 i 12 oherwydd y lefelau uchel o ddata sydd ar goll. Mae manylion llawn y dulliau a ddefnyddiwyd i'w gweld ar

http://www.euro.who.int/eprise/main/who/informationsources/publications/catalogue/20040518_1

3. Mae'r data am bobl ifanc 17 i 18 oed yn dod o arolwg iechyd Cymru ac fe'i cyhoeddir yng nghyhoeddiad Jones N., Kingdon A., Roberts C. (2005) *Welsh Health Survey 2003-04*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. Nid yw maint y sampl ar hyn o bryd yn caniatáu dadansoddiad yn ôl rhyw i bobl ifanc 17 i 18 oed. Megis gyda'r grwpiau oedran iau, cyfrifir BMI gan ddefnyddio taldra a phwysau a gofnodir gan yr unigolion eu hunain. Mae manylion llawn y dulliau a ddefnyddiwyd i'w gweld ar

http://www.wales.gov.uk/keypubstatisticsforwales/content/publication/health/2005/hs2003-04/hs2003-04.htm

4. Dylid bod yn ofalus wrth lunio cymariaethau rhwng pobl ifanc 13 i 16 oed a phobl ifanc 17 i 18 oed, o ystyried y gwahaniaethau yn y methodolegau arolygu.

5. Gellir cyfuno'r canrannau dros bwysau a gordew i roi'r ganran lawn sydd oedd dros bwysau.

6. Nid oes data ar gael am unrhyw grwp oedran arall yn y boblogaeth o dan 18 oed.

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefelau gordewdra yng Nghymru? (WAQ46684)

**Brian Gibbons:** Mae arolwg iechyd Cymru 2003-04 yn dangos bod 18 y cant o oedolion yng Nghymru yn cael eu hystyried yn ordew a 36 y cant arall dros bwysau. Mae mynd i'r afael â gordewdra yn flaenoriaeth weithredu i Lywodraeth y Cynulliad. Mae'n thema allweddol mewn dogfennau strategol.

Mae 'Bwyd a Lles', y strategaeth faethiad genedlaethol i Gymru, yn cynnwys amryw o gamau gweithredu i wella diet pobl yng Nghymru. Un o'i hamcanion allweddol yw datblygu a hyrwyddo cynlluniau i atal a rheoli gorbwysedd a gordewdra ymysg poblogaeth Cymru.

Nod 'Dringo'n Uwch' yw gwneud yn fawr o'r cyfraniad y gall chwaraeon a gweithgarwch corfforol ei wneud tuag at les yng Nghymru ar draws llawer o ddimensiynau. Mae nifer o dargedau wedi cael eu gosod ac mae cynllun gweithredu integredig llawn ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

Yn 2004, sefydlwyd grwp gorchwyl bwyd a ffitrwydd ar gyfer plant a phobl ifanc. O ganlyniad i waith y grwp hwnnw cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori, 'Her Iechyd Cymru—Gweithredu ar Fwyd a Ffitrwydd i Blant a Phobl Ifanc', ym mis Mehefin 2005. Yn dilyn yr ymgynghoriad, mae'r cynllun gweithredu wedi cael ei ddiweddaru a bydd yn cael ei lansio ar 29 Mehefin 2006 mewn cynhadledd fawr am y pwnc.

Mae gennym hefyd nifer o raglenni i fynd i'r afael â'r angen i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol a gwella maeth sy'n cynnwys:

rhwydwaith cymunedol bwyd a gweithgarwch corfforol sy'n darparu cymorth i 1,300 yn fras o weithwyr prosiect a gwirfoddolwyr ar draws Cymru

rhaglen gymunedol cwmnïau bwyd cydweithredol sydd wedi arwain, hyd yma, at sefydlu 80 o gwmnïau cydweithredol

ymgyrch 'Pump y Dydd' i hybu bwyta ffrwythau a llysiau

rhwydwaith Cymru o gynlluniau ysgolion iach sy'n gyfrwng i lawer o ysgolion edrych ar faeth ac ymgymryd â gweithgareddau fel sefydlu siopau ffrwythau a grwpiau gweithredu ar faeth yn yr ysgol

y cynllun grant hybu iechyd bwyd a ffitrwydd sy'n darparu cymorth ariannol i brosiectau cymunedol ar draws Cymru er mwyn annog ffyrdd gweithgar o fyw a bwyta'n iachach

canllawiau arferion da o ran atgyfeirio cleifion i wneud ymarfer corff, gan adeiladu ar yr arferion gorau yng Nghymru

treialu 'Symud yn Amlach', prosiect sy'n anelu at hyrwyddo gweithgarwch corfforol ymysg pobl hyn, fregus.

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygiad gwasanaethau cymorth yn y dyfodol ar gyfer gofalwyr maeth a'u teuluoedd, ac yn arbennig yr angen am gymorth a chyngor lleol 24 awr, yn cynnwys cyngor annibynnol ar gyfer gofalwyr maeth? (WAQ46696)

**Brian Gibbons:** Mae'r safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau maethu yn nodi cyfrifoldebau darparwr y gwasanaeth maethu, yn cynnwys rheoli a chefnogi gofalwyr maeth a goruchwylio a hyfforddi. Dywed paragraff 22.7 yn benodol y dylai fod system o gymorth ymarferol i ofalwyr, yn cynnwys rheolaeth y tu allan i oriau.

Mae tystiolaeth fod cyllid Plant yn Gyntaf yn arwain at well buddsoddi mewn gwasanaethau maethu gan awdurdodau lleol yng Nghymru.

Mae adnoddau sylweddol wedi cael eu dyrannu i'r rhaglen Plant yn Gyntaf, mwy na £150 miliwn ers iddi gael ei sefydlu yn 1999. Bydd £44.6 miliwn pellach yn cael ei ddarparu yn 2006-07 drwy grantiau a chymorth refeniw.

Byddaf yn adolygu cais y Rhwydwaith Maethu am linell gymorth i Gymru, sydd yn ychwanegol at y

gofyniad yn y safonau gofynnol cenedlaethol, a gobeithiaf ddod i benderfyniad cyn gynted â phosibl. Bydd barn y Rhwydwaith Maethu a barn gofalwyr maeth yng Nghymru yn cael ei chymryd i ystyriaeth wrth asesu'r cais.

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion y dangosyddion diweddaraf ar gyfer cyflawniad addysgol plant sy'n derbyn gofal? (WAQ46697)

**Brian Gibbons:** Ar 31 Mawrth 2005, dangosai'r dangosyddion am gyflawniad addysgol plant dros 16 oed sy'n derbyn gofal fod gan:

41.9 y cant o leiaf 1 TGAU ar raddau A*-G neu GNVQ.

34.9 y cant o leiaf 2 TGAU ar raddau A*-G neu GNVQ.

Dyddiad y ffynhonnell—ystadegau 2004-05 uned ddata llywodraeth leol. I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.dataunitwales.gov.uk/PSS

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion y dangosyddion diweddaraf ynglyn â sefydlogrwydd lleoliadau plant sy'n derbyn gofal? (WAQ46698)

**Brian Gibbons:** Ar 31 Mawrth 2005, yr oedd 10.49 y cant o blant sy'n derbyn gofal wedi cael tri neu fwy o leoliadau yn ystod y flwyddyn.

Dyddiad y ffynhonnell—ystadegau 2004-05 uned ddata llywodraeth leol. I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.dataunitwales.gov.uk/PSS

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am safonau cenedlaethol ar gyfer maethu? (WAQ46699)

**Brian Gibbons:** Cafodd y safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau maethu eu cyhoeddi ym mis Chwefror 2003 ynghyd â Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru). Y rheoliadau hyn yw sylfaen y fframwaith rheoleiddio o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000. Mae'r rheoliadau a'r safonau yn gymwys i wasanaethau maethu awdurdodau lleol, asiantaethau maethu annibynnol a mudiadau gwirfoddol sy'n darparu gwasanaethau maethu o dan adran 59 o Ddeddf Plant 1989.

**Helen Mary Jones:** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o wersi i Gymru yn dilyn adolygu'r llinell gofal maeth ar gyfer Lloegr? (WAQ46700)

**Brian Gibbons:** Dywed y safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau gofal maeth, sy'n gymwys i'r holl ddarparwyr gwasanaethau maethu, y dylai fod system o gymorth ymarferol i ofalwyr yn cynnwys rheolaeth y tu allan i oriau. Byddaf yn adolygu'r cais am linell gymorth yng Nghymru, sydd yn ychwanegol at y gofyniad yn y safonau gofynnol cenedlaethol, yng ngoleuni'r adolygiad o'r llinell gymorth gofal maeth yn Lloegr.

Byddaf yn ystyried yr opsiynau i gyd ac yn gwneud penderfyniad yn fuan. Bydd barn y Rhwydwaith Maethu a gofalwyr maeth yng Nghymru yn cael ei chymryd i ystyriaeth wrth asesu'r cais.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog fanylu ynghylch yr arian a werir ar (i) y seilwaith, (ii) cyffuriau a (iii) rhagnodi ar gyfer trin sglerosis ymledol? (WAQ46704)

**Brian Gibbons:** Yn ystod blwyddyn ariannol 2005-06, buddsoddodd Comisiwn Iechyd Cymru £2.5 miliwn ar therapïau addasu'r clefyd ar gyfer sglerosis ymledol a'r seilwaith sy'n ofynnol i ofalu am a monitro cleifion sy'n defnyddio'r cyffuriau hyn. Mae'n bwysig nodi bod y lefel gyfredol o gyllid yn sylweddol uwch na'r dyraniad gwreiddiol o £1.7 miliwn, a ryddhawyd i'r comisiynwyr yn 2002.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyletswyddau dan-gontract Air Products Cymru i ddarparu silindrau ocsigen i bob rhan o Gymru? (WAQ46705)

**Brian Gibbons:** Mae modd gweld dyletswyddau dan-gontract Air Products yng Nghymru yn y fanyleb gwasanaeth fanwl sydd ar gael ar y wefan ocsigen.

http://www.dh.gov.uk/assetRoot/04/09/50/46/04095046.pdf

Gellir crynhoi'r dyletswyddau fel y cyfrifoldeb dros ddarparu systemau ocsigen symudol a systemau yn y cartref i ddiwallu anghenion clinigol cleifion fel y'u nodir yn yr archeb am ocsigen a gyflwynwyd gan eu meddyg teulu neu dîm clinigol arbenigol.

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y dangosyddion y mae'n eu defnyddio i

fonitro cost gweithdrefnau meddygol? (WAQ46709)

**Brian Gibbons:** Mae datganiad blynyddol yn cael ei ddarparu gan ymddiriedolaethau GIG Cymru (ar wahân i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre) am gostau eu gweithgareddau gofal gogyfer â chleifion sy’n cael eu derbyn i’r ysbyty, fesul grwp adnoddau gofal iechyd. Mae grwp adnoddau gofal iechyd yn golygu grwp o weithdrefnau meddygol sy’n debyg i’w gilydd o ran yr adnoddau a ddefnyddir ac yn debyg i’w gilydd yn glinigol. Mae 572 o grwpiau adnoddau gofal iechyd sy’n cwmpasu’r rhan fwyaf o weithdrefnau meddygol a gyflawnir mewn ysbytai. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn defnyddio’r datganiadau costau fesul grwp, ynghyd â gwybodaeth arall gan yr ymddiriedolaethau am wasanaethau cleifion allanol a gwasanaethau cymunedol, i ddatblygu mynegai costau blynyddol i’r 12 ymddiriedolaeth sy’n cyflwyno datganiadau fesul grwp. Caiff y rhain eu cyhoeddi’n flynyddol mewn cylchlythyr iechyd i Gymru. Mae WHC (2006) 15 yn cynnwys canlyniadau dadansoddiad costau fesul grwp 2004-05.

**Michael German:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau sgrinio’r coluddyn yng Nghymru? (WAQ46716)

**Michael German:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefel yr ariannu ar gyfer sgrinio'r coluddyn yng Nghymru? (WAQ46717)

**Brian Gibbons:** Fel rhan o fframwaith sy’n cael ei ddatblygu i fynd i’r afael â chanser y coluddyn yng Nghymru, yr wyf wedi gofyn i Gomisiwn Iechyd Cymru weithio gyda’r GIG a’r grwp cyd-drefnu gwasanaethau canser i ddatblygu cynigion sydd wedi cael eu costio’n ffurfiol ar gyfer rhaglen genedlaethol, i gael ei chyflwyno fesul cam, i sgrinio dynion a menywod rhwng 50 a 74 oed yng Nghymru am ganser y coluddyn. Yn gefn i hyn bydd rhwydwaith hyfforddiant a reolir yn cael ei sefydlu ar gyfer endosgopyddion.

**Alun Cairns:** Pa bolisïau sydd ar waith i annog nyrsys clinigol arbenigol i hyfforddi a gweithio'n agos gyda meddygon teulu a nyrsys practisiau meddygon teulu? (WAQ46723)

**Brian Gibbons:** Y byrddau iechyd lleol a Chomisiwn Iechyd Cymru sy’n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau ar sail angen a thystiolaeth o arferion da. Bydd angen i benodiadau nyrsys arbenigol gael eu hasesu mewn cynlluniau datblygu gwasanaethau lleol a rhanbarthol.

**Alun Cairns:** Pa bolisïau sydd ar waith i ddiogelu gwasanaethau meddygol eilaidd ar gyfer gofal coronaidd mewn ysbytai cyffredinol dosbarth lle cynigir gofal trydyddol hefyd? (WAQ46724)

**Brian Gibbons:** Mae’r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer clefyd coronaidd y galon yn gosod safonau i sicrhau gofal o ansawdd uchel, wedi’i seilio ar dystiolaeth, ar lefel ysbytai cyffredinol dosbarth a chanolfannau trydyddol. O ganlyniad i’r safonau hyn dylai cleifion ddisgwyl cael y lefel briodol o ofal mewn perthynas â’u cyflwr neilltuol hwy.

**Alun Cairns:** Pa ganllawiau sydd ar gael o ran fframiau amser a thargedau gyda golwg ar archwiliad gan gardiolegydd ar gyfer claf sydd wedi cael trawiad ar y galon? (WAQ46725)

**Brian Gibbons:** Mae’r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer clefyd coronaidd y galon yn gosod safonau i sicrhau bod cleifion sydd â syndrom cardiaidd aciwt, sy’n cynnwys cnawdnychiant myocardiaidd (trawiad ar y galon) yn cael gofal prydlon o ansawdd uchel, wedi’i seilio ar dystiolaeth. Yn arbennig, mae’n ofynnol yn ôl y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol fod unrhyw glaf sy’n cael ei dderbyn i’r ysbyty gyda diagnosis cardiaidd yn cael gweld cardiolegydd o fewn 24 awr iddo gael ei dderbyn. Ni ddylai fod amser aros am ymchwiliad angiograffi i gleifion sydd â diagnosis syndrom cardiaidd aciwt.

Mae’r tri rhwydwaith cardiaidd wedi sefydlu llwybrau rheoli y cytunwyd arnynt ar gyfer y rhai sy’n cael poen mawr yn y frest, yn unol â gofynion y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol. Mae cael mynediad cynnar at thrombolysis i gleifion sydd wedi cael trawiad ar y galon, ac y mae’r driniaeth hon yn briodol iddynt, o fudd mawr ac mae targedau cyfredol y fframwaith gwasanaeth a chyllid yn gweithio tuag at y nod o gyrraedd amser ‘galw at y nodwydd’ o ddim mwy na 60 munud ar gyfer thrombolysis. I helpu i gyrraedd y targed hwn, mae thrombolysis o dan arweiniad parameddygon yn cael ei roi ar waith ar draws Cymru. Mae’r archwiliadau o amseroedd thrombolysis mewn ysbytai wedi dangos gwelliant cyson. Gwnaethpwyd gwelliannau sylweddol ym mhob un o’r meysydd hyn dros y blynyddoedd diwethaf ac mae’n ofynnol yn ôl ‘Cynllun Oes’ fod holl safonau’r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol yn cael eu cyrraedd yn llawn erbyn mis Mawrth 2009.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog restru pob un o’i hymweliadau Gweinidogol tramor ers mis Mai 2003 a rhoi manylion am ddibenion ei hymweliadau a chost pob un? (WAQ44109)

***Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.***

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Gallaf gadarnhau nad ymgymerais ag unrhyw ymweliadau tramor yn ystod y cyfnod a nodwyd.

**Laura Anne Jones:** Faint o arian a dderbyniodd yr 'Echo Community Group' o Gasnewydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf a faint y byddant yn ei dderbyn eleni? (WAQ46719)

**Edwina Hart:** Ni allaf ganfod unrhyw gofnod fod y grwp wedi cael unrhyw gyllid uniongyrchol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

## Cwestiynau i'r Trefnydd

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog nodi cost dylunio a datblygu gwefan newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i rhoi ar-lein? (WAQ46678)

**Y Trefnydd (Jane Hutt):** Mae'r prosiect yn dal i fynd rhagddo a hyd nes y bydd y gwaith wedi cael ei gwblhau nid yw'n bosibl rhoi ffigur manwl gywir.

**Michael German:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU parthed cyfansoddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, yn arbennig gyda golwg ar ymgyrchwyr ym maes anabledd? (WAQ46720)

**Jane Hutt:** Yr wyf wedi cael sawl cyfarfod a thrafodaeth â Meg Munn AS, Is-ysgrifennydd Seneddol dros Fenywod a Chydraddoldeb, i sicrhau bod y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn gallu gweithredu'n effeithiol yng Nghymru.

Mae swyddi cadeirydd a chomisiynwyr y comisiwn yn cael eu hysbysebu ar hyn o bryd a rhaid i o leiaf un o'r comisiynwyr fod yn berson sydd, neu sydd wedi bod, yn anabl. Y person hwn fydd yn cadeirio'r pwyllgor anabledd, y bydd ystod eang o swyddogaethau yn cael eu dirprwyo iddo ac ef fydd yn llywio gwaith y comisiwn ar anabledd.